CODWCH EICH BWCEDI!

St John Ambulance Cymru

## Codi Eich Bwcedi

# Pecyn codi arian

Edrych yn dda am achos da
#CodwchEichBwcedi

@SJACymru
www.sjacymru.org.uk

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FR FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Rhif elusen 250523. Rhif cwmni 5071073.

# CODWCH EICH BWCEDI!

## Mae pawb yn hoffi cael ychydig o hwyl yn yr haul yn ystod yr haf, yn enwedig os gallwch gasglu arian at achos gwych wrth wneud hynny. A'r haf hwn, mae angen eich help arnom ni i wneud hynny.

Rydym am i chi ein helpu i ledaenu'r neges am bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn yr haul yr haf hwn, a thrwy wneud hynny, codi arian drwy ein helpu i **'Godi Eich Bwcedi,'** a threfnu digwyddiad casglu arian mewn bwced yn eich ardal leol.

**Cadwch olwg am ein negeseuon diogelwch haul er mwyn gadw'n ddiogel yr haf 'ma'**

@SJACymru



# Archebu eich het fwced

# Codi Eich Bwcedi






## Un o'r awgrymiadau pwysicaf er mwyn cadw'n ddiogel yn yr haul yw gwneud yn siŵr eich bod yn gwisgo het pan fyddwch yn yr awyr agored.

Y newyddion gwych yw y gallwn anfon het fwced **'Codi Eich Bwcedi'** atoch am gyfraniad awgrymedig, a fydd nid yn unig yn helpu i'ch cadw'n ddiogel yr haf hwn, ond yn cyfrannu at ein hymdrechion codi arian hefyd. Mae'r rhain ar gael am gyfraniad awgrymedig o £10.00 ar gyfer het oedolyn, £8.00 am het plentyn a thâl post o **£2.99** am bob archeb.

(Bydd hyn yn ein helpu i dalu'r gost o gynhyrchu'r hetiau a'u hanfon, yn ogystal â'n helpu i godi arian i gefnogi ein gwaith achub bywyd.)




## Archebwch eich het bwced:

Er mwyn archebu eich het fwced, cliciwch yma:
**www.sjacymru.org.uk/raise-your-buckets**

cysylltwch â ni drwy anfon neges e-bost at:
**fundraising@sjacymru.org.uk** neu ffoniwch:
**02920 449 626**

**Sganiwch y CÔD QR**




# Codi Eich Bwcedi Casgliadau bwced

**Yr haf hwn, rydym yn gofyn i chi, eich teulu a'ch ffrindiau neu grŵp neu sefydliad i'n helpu i 'Godi Eich Bwcedi' trwy drefnu casgliad bwced neu ddigwyddiad pacio bagiau mewn archfarchnad i godi arian er mwyn ein helpu i achub mwy o fywydau mewn cymunedau ledled Cymru.**

I drefnu casgliad bwced yn eich ardal, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cysylltu â rheolwr eich archfarchnad leol i ofyn am ganiatâd ac yna archebu dyddiad.

A oes digwyddiad cymunedol lleol neu ffair haf ar y gweill yn eich ardal chi? Os felly, gallech ofyn i drefnwyr y digwyddiad a fyddai'n bosib i chi gynnal casgliad bwced ar gyfer Ambiwlans Sant Ioan Cymru.

Neu, os ydych yn aelod o Is-adran Ambiwlans Sant Ioan Cymru, gallech gynnal eich casgliad bwced yn ystod diwrnod agored neu ddigwyddiad rhanbarthol.

Byddwn yn anfon popeth sydd ei angen arnoch, gan gynnwys eich bwcedi codi arian a deunyddiau, felly cysylltwch â'n tîm codi arian heddiw trwy anfon neges e-bost at: **fundraising@sjacymru.org.uk** neu ffoniwch: **02920 449626**

# Dyma ein canllaw syml ar gyfer trefnu eich casgliad 'Codi Eich Bwcedi':

## Gwnewch y canlynol

- Cysylltwch â'ch archfarchnad neu ddigwyddiad lleol i holi am ganiatâd i gynnal casgliad bwced i gefnogi Ambiwlans Sant Ioan Cymru.
- Cysylltwch â ni fel y gallwn anfon llythyr o awdurdod atoch os oes angen, ac wrth gwrs, eich bwced(i) codi arian i'w defnyddio ar y diwrnod drwy anfon neges e-bost at **fundraising@sjacymru.org.uk**
- Archebwch eich het(iau) bwced 'Codi Eich Bwcedi' i'w gwisgo tra byddwch yn casglu gan y bydd tynnu sylw ati yn ffordd wych o gychwyn sgwrs ar y diwrnod.
- Os ydych yn casglu mewn ardal gyhoeddus, cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael trwydded casgliad stryd - gallwch ddod o hyd i fanylion ar wefan eich cyngor lleol. Nid ydynt yn costio dim a gellir gwneud cais ar-lein fel arfer.
- Sicrhewch fod gennych ddigon o bobl i'ch helpu ar y diwrnod fel y gallwch gael egwyl os oes angen, a sicrhewch fod pob un sy'n casglu dros 16 oed.
- Diolchwch i bawb (gan gynnwys y lleoliad) am eu cefnogaeth garedig.
- Sicrhewch fod dau unigolyn yn bresennol pan fyddwch yn gwagio eich bwcedi i gyfri'r rhoddion.
- Anfonwch eich rhoddion 'Codi Eich Bwcedi' cyn gynted â phosib drwy ddefnyddio'r manylion talu sydd ar dudalen olaf y pecyn hwn.
- Dychwelwch eich bwcedi fel y gellir eu defnyddio eto wrth i ni barhau i 'Godi Eich Bwcedi' gydol yr haf.
- Byddwch yn falch ohonoch eich hun oherwydd trwy 'Godi Eich Bwcedi' bydd pob punt y byddwch yn ei chasglu yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r hyfforddiant cymorth cyntaf a'r gefnogaeth yr ydym yn ei darparu er mwyn achub bywydau mewn cymunedau ledled Cymru.

## Peidiwch â gwneud y canlynol


- Mynd o ddrws i ddrws i ofyn am roddion.
- Peidiwch â mynd at bobl na'u rhwystro wrth i chi gasglu. Gobeithio y bydd eich gwên yn ddigon i'w denu.
- Ysgwyd eich bwcedi wrth gasglu.
- Gadael eich bwcedi heb neb yn gofalu amdani.
- Peidiwch â chasglu mewn unrhyw ardal arall ar wahân i'r ardal yr ydych wedi cael caniatâd ar ei chyfer.
- Gwagio neu gyfrif eich rhoddion mewn man cyhoeddus.
- Peidiwch â digalonni os yw'n ddiwrnod tawel, mae hynny'n digwydd weithiau, a gallech ofyn i'r lleoliad i gael dod yn ôl eto ar achlysur arall.

# Llond bwced o awgrymiadau codi arian



**Gall eich ysgol, ffrindiau a theulu, neu weithle ein helpu i 'Godi Eich Bwcedi' yr haf hwn, a gall cymryd rhan fod yn lawer o hwyl:**

- Er enghraifft, os ydych chi'n codi arian yn yr ysgol, gallech chi gynnal diwrnod gwisgo het neu ddiwrnod gwisgo melyn am gyfraniad bach.
- Neu os ydych chi wedi derbyn eich het fwced am ddim, (manylion ar dudalen 3) gallech ei throi wyneb i waered, yn union fel bwced go iawn, a'i llenwi â gwahanol eitemau gan ofyn i bobl ddyfalu sawl eitem sydd yn y 'bwced', gan godi tâl bach am bob dyfaliad.
- Os ydych yn codi arian yn y gweithle, gallech werthu cacennau neu drefnu taith gerdded llesiant noddedig amser cinio i godi arian. Gofynnwch i'ch tîm archebu eu hetiau bwced 'Codi Eich Bwcedi' i'w gwisgo yn y gwaith neu yn ystod eich gweithgaredd. Y peth gwych am wisgo'ch het fwced i'r gwaith yw y gall hyd yn oed cydweithwyr sy'n gweithio o bell gymryd rhan.
- Ond un o'r ffyrdd symlaf o godi arian yw trefnu casgliad bwced mewn archfarchnad neu ddigwyddiad lleol, a gallwn anfon popeth sydd ei angen arnoch a fydd yn gwneud eich casgliad **'Codi Eich Bwcedi'** yn llwyddiant a'r broses mor syml â phosibl.




# Codi Arian Ar-lein

**Os ydych yn bwriadu trefnu eich digwyddiad codi arian eich hun i 'Godi Eich Bwcedi', un o'r ffyrdd symlaf i godi arian yw creu tudalen codi arian ar-lein y gallwch ei rhannu ar eich cyfryngau cymdeithasol. Gallwch ofyn i bawb sy'n ymwneud â'r gweithgaredd rannu'r dudalen codi arian fel y gall eich cydweithwyr, teulu a ffrindiau eich noddi neu gyfrannu.**

Mae codi arian ar-lein yn syml ac yn ddiogel hefyd gan y bydd eich holl roddion yn dod atom ni'n uniongyrchol, fel y gall yr arian yr ydych wedi'i gasglu gael ei ddefnyddio i wneud gwahaniaeth yn syth.

Rydym hefyd wedi cynnwys ffurflen noddi 'Codi Eich Bwcedi' ar y dudalen nesaf y gallwch ei hargraffu neu ei chopïo i gasglu unrhyw roddion all-lein.

Gallwch greu eich tudalen codi arian ar-lein eich hun trwy fynd i: **www.justgiving.com/sjcw**

# Dangoswch eich cefnogaeth i elusen cymorth cyntaf flaenllaw Cymru!

Bydd eich rhoddion yn ein galluogi i barhau â'n gwaith achub bywydau hanfodol yng nghalon cymunedau Cymru, ac yn ein helpu i achub mwy o fywydau. Dysgwch fwy: **www.sjacymru.org.uk/fundraise**

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

CODWCH EICH BWCEDI!

St John Ambulance Cymru

**Enw:** ..................................................

**Cyfeiriad:** ..................................................

..................................................

**Noddwch fi i:** ..................................................

| Enw | E-bost | Cyfeiriad cartref | Cod Post | Rhodd Cymorth? | Swm | Dyddiad | A gawn ni gysylltu â chi? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| David Bucket | david_bucket@example.com | 10 Bucket Road, Cardiff | CF4 RYB | ✓ | £21.00 | 24/11/2022 | ☐ Email ☐ Post |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

giftaid it

## Gwnewch bob £1 yr ydych chi'n ei roi gwerth 25c yn fwy!

Drwy dicio'r blwch 'Rhodd Cymorth', rwy'n cadarnhau fy mod eisiau i St John Ambulance Cymru hawlio treth yn ôl ar fy rhodd uchod ac unrhyw roddion rwy'n eu gwneud yn y dyfodol neu wedi'u gwneud yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Rwy'n drethdalwr Enillion Incwm neu Enillion Cyfalaf y DU a deallaf os wyf i'n talu llai o Dreth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf na swm y Rhodd Cymorth a hawliwyd ar fy holl roddion yn y dreth honno fy nghyfrifoldeb i yw talu unrhyw wahaniaeth. **Mae'n rhaid i chi roi eich enw llawn, cyfeiriad cartref, cod post a thicio'r blwch 'Rhodd Cymorth' i ni hawlio treth yn ôl ar eich cyfraniad.**

Ticiwch yr opsiynau uchod os ydych yn hapus i dderbyn gwybodaeth am weithgareddau, ceisiadau codi arian a newyddion St John Ambulance Cymru. Gallwch ddad-danysgrifio ar unrhyw adeg drwy ein ffonio ar: **029 2044 9626.**

**Cyfanswm wedi ei godi:** £


Dychwelwch eich ffurflen wedi'i llenwi i: Tîm Codi Arian, St John Ambulance Cymru, Tŷ'r Priordy, Clôs Beignon, Caerdydd, CF24 5PB

Rhif elusen gofrestredig: 250523

# Llond bwced o hwyl

Mae'r haf yn gyfnod lliwgar a llachar, felly beth am gael ychydig o hwyl a defnyddio'ch creadigrwydd i liwio neu ddylunio'ch het fwced eich hun gan ddefnyddio'r templed isod.

Lliwia fi




Os ydych chi'n 'Codi Eich Bwcedi' gyda phlant a phobl ifanc, gofynnwch iddyn nhw gymryd rhan yn y gweithgaredd hwyliog hwn ac i anfon eu cynigion i'r cyfeiriad ar gefn y pecyn hwn am y cyfle i **ennill het fwced.**

# CODWCH EICH BWCEDI!

St John Ambulance Cymru

## Manylion cyswllt a throsglwyddo'ch rhoddion

Ar ôl eich digwyddiad 'Codi Eich Bwcedi', sicrhewch eich bod yn anfon eich arian atom cyn gynted â phosib fel y gallwn barhau â'n gwaith i gefnogi cymunedau ledled Cymru. Gallai'r arian yr ydych chi'n ei godi, yn llythrennol, achub bywyd. **please make sure you include your name followed by RYB as a reference so that we can match up your fundraising efforts to you!**

### Ar-lein

Ewch i www.sjacymru.org.uk/fundraise i dalu'r arian yr ydych wedi'i gasglu neu'ch arian nawdd drwy gerdyn credyd neu ddebyd.

Gallwch hefyd sefydlu tudalen codi arian ar-lein trwy JustGiving drwy fynd i: **www.justgiving.com/sjcw** a dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

### Post

Anfonwch sieciau yn daladwy i 'St John Ambulance Cymru' i :
**St John Ambulance Cymru, Tŷ Priordy, Clôs Beignon, Caerdydd, CF24 5PB.**

### Trosglwyddiad Banc

Gallwch drosglwyddo arian yn uniongyrchol i ni drwy ddefnyddio manylion y cyfrif isod:

Enw'r Cyfrif: **St John Ambulance Cymru**
Cod Didoli: **20-18-15**
Rhif y cyfrif: **13853659**

Os ydych yn talu fel hyn, rhowch wybod i ni pan fyddwch chi wedi gwneud y taliad a sicrhewch eich bod yn cynnwys cyfeirnod. Cofiwch gadw copi o'ch derbynneb ar gyfer eich cofnod eich hun.

### Ffôn

Ffoniwch ein llinell roddion ar **029 2044 9626**.

@SJACymru

**www.sjacymru.org.uk**

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Rhif elusen 250523. Rhif cwmni 5071073.